# Fframwaith Rhifedd

## Derbyn

### Adnabod prosesau a chysylltiadau

- trosglwyddo sgiliau mathemategol i weithgareddau chwarae a'r ystafell ddosbarth
- adnabod camau i gwblhau'r dasg neu gyrraedd datrysiad
- dewis mathemateg a thechnegau priodol i'w defnyddio
- dewis a defnyddio ffeithiau rhif a strategaethau meddwl perthnasol
- dewis cyfarpar ac adnoddau priodol
- defnyddio gwybodaeth a phrofiad ymarferol yn sail wrth amcangyfrif

### Adolygu

- defnyddio strategaethau gwirio syml i benderfynu a yw atebion yn rhesymol
- dehongli atebion yng nghyd-destun y broblem ac ystyried a yw atebion yn synhwyrol
- dehongli gwybodaeth a gyflwynir ar ffurf siartiau a diagramau syml a dod i gasgliadau priodol

### Cynrychioli a chyfathrebu

- defnyddio ieithwedd arferol ac ieithwedd fathemategol i siarad am eu syniadau a'u dewisiadau eu hunain
- cyflwyno'u gwaith ar lafar, ar ffurf llun ac ysgrifen, a defnyddio amrywiaeth o ffyrdd i gyflwyno data a gasglwyd
- dylunio a mireinio dulliau anffurfiol, personol o gofnodi, gan symud tuag at ddefnyddio geiriau a symbolau mewn brawddegau rhif





### Rwyn gallu (defnyddio sgiliau rhifedd)...

- cyfrif hyd at 10 o wrthrychau'n ddibynadwy
- darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 10 o leiaf
- cymharu a rhoi rhifau yn eu trefn hyd at 10 o leiaf
- cyfuno dau grŵp o wrthrychau er mwyn canfod 'faint sydd yna yn gyfan gwbl?'
- tynnu gwrthrychau i ffwrdd er mwyn canfod 'faint sydd ar ôl?'
- defnyddio darnau arian 1c, 2c, 5c a 10c i dalu am eitemau





### Rwyn gallu (defnyddio sgiliau mesur)...

- defnyddio'r cymariaethau canlynol yn uniongyrchol:
  - hyd, uchder a phellter, e.e. hirach/byrrach na
  - pwysau (màs), e.e. trymach/ysgafnach na
  - cynhwysedd, e.e. yn dal mwy/llai na
- defnyddio amseryddion i ddeall treigl amser, e.e. amseryddion tywod
- defnyddio cysyniad amser yn gysylltiedig â'i weithgareddau bob dydd
- defnyddio cymariaethau uniongyrchol wrth ddisgrifio'r tymheredd, e.e. poeth/oer

### Rwyn gallu (defnyddio sgiliau data)...

- didoli a dosbarthu gwrthrychau drwy ddefnyddio un maen prawf
- cofnodi casgliadau drwy ddefnyddio marciau, rhifau neu luniau.





